YR ATODLEN

Amodau

# RHAN 3

## Amodau eraill

### ***Rheoli llygredd***

*Offer gorlifo*

**19.** Rhaid i offer gorlifo fod ar gael yn yr ardal ddatblygadwy ar bob adeg a rhaid iddynt fod â chapasiti gofynnol cyfunedig sy'n ddigonol i amsugno 1500 litr o gemegau ac olewau.

*Tanwydd, gwastraff peryglus, gwastraff anifeiliaid a thail*

**20.**—(1) Rhaid storio gwastraff peryglus mewn ardal sy'n ddiogel, yn anhydraidd ac sydd wedi ei gorchuddio.

(2) Rhaid storio gwastraff peryglus hylifol mewn ardal wedi ei byndio sy'n ddigonol i ddal 110% o gyfanswm cyfaint yr hylif.

**21.** Rhaid storio gwastraff anifeiliaid a phlanhigion, gan gynnwys anifeiliaid meirw a phan fo'n briodol nwyddau yr ymafaelwyd ynddynt, mewn cynwysyddion anhydraidd y gellir eu selio yn llwyr pan fydd y gwastraff hwnnw yn yr ardal ddatblygadwy ac wrth ei symud ymaith o'r ardal ddatblygadwy.

**22.**—(1) Rhaid cadw tail mewn storfa ddiddos sy'n atal fermin ac sydd ag arwyneb anhydraidd a system ddraenio wedi ei selio i atal dŵr ffo.

(2) Rhaid bod gan y storfa a ddisgrifir yn is-baragraff (1) awyru digonol i atal nwyon rhag cronni.

**23.** Rhaid i danciau tanwydd fod wedi eu lleoli uwchben lefel y ddaear.

### **Arwyddion**

**24.** Rhaid i unrhyw destun ar arwydd a ganiateir neu sy'n ofynnol gan neu o dan y Gorchymyn hwn fod yn Gymraeg ac yn Saesneg a rhaid rhoi'r testun Cymraeg yn gyntaf.

### **Y brigiad creigiog**

**25.**—(1) Os yw'r ffensys sy'n amgáu'r brigiad creigiog sy'n ofynnol gan baragraff 1(1) yn cael eu cadw neu eu hamnewid ar ôl i unrhyw ddefnydd a ganiateir gan erthygl 3(1)(a)(i) gychwyn, mae'r amod yn is-baragraff (2) yn gymwys.

(2) Rhaid i'r ffensys fod—

(a) yn ffensys atal da byw a wnaed o wifrau galfanedig gyda physt heb eu paentio a wnaed o bren ac sy'n llai nag 1.5 metr o uchder, neu

(b) wedi eu gorffen yn y palet lliw a nodir ym mharagraff 9(2).

(3) Ni chaniateir unrhyw offer, peiriannau, deunyddiau nac eitemau eraill ar y brigiad creigiog heblaw er mwyn codi neu gynnal a chadw'r ffensys yn ôl yr angen.

**Mynediad i gerbydau**

**26.** Rhaid i gerbydau sy'n mynd i'r tir wneud hynny drwy fynedfa'r safle heblaw mewn argyfwng pryd y caniateir defnyddio'r fynedfa argyfwng sydd wedi ei marcio ar y map â dwy saeth las yng nghornel ogledd-ddwyreiniol yr ardal ddatblygadwy a'r tir.

**Y cynllun teithio**

**27.**—(1) Rhaid i'r cynllun teithio gael ei adolygu a'i ddiweddaru i gynnwys amcanion clir a thargedau o ran dulliau teithio ("y cynllun teithio diwygiedig").

(2) Rhaid i'r cynllun teithio diwygiedig hefyd gynnwys—

(a) llinell amser ar gyfer gweithredu'r rhaglen, a

(b) manylion ynghylch sut y caiff yr amcanion a'r targedau eu monitro, eu hadolygu a'u diweddaru.

(3) Rhaid cyflwyno'r cynllun teithio diwygiedig i'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer cymeradwyaeth berthnasol o fewn y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r defnydd cyntaf a ganiateir gan erthygl 3(1)(a)(i), a rhaid gweithredu'r cynllun teithio diwygiedig yn unol â'r gymeradwyaeth hon.

(4) Rhaid i'r cynllun teithio wedi ei ddiweddaru fod ar gael i edrych arno ym mhrif swyddfa'r datblygwr ac ar ei wefan.

(5) At ddibenion y paragraff hwn, ystyr y "cynllun teithio" yw Datganiad Trafnidiaeth Safle Rheoli ar y Ffin Gogledd Cymru—

(a) a luniwyd gan Mott Macdonald,

(b) dyddiedig Rhagfyr 2022, ac

(c) sydd â'r rhif dogfen BCP22-005-00-01.

(6) Rhaid hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol ynghylch unrhyw newidiadau i fanylion cydlynydd y cynllun teithio o fewn un mis i'r newid.

(7) At ddibenion is-baragraff (6), ystyr "manylion cydlynydd y cynllun teithio" yw'r wybodaeth sy'n ofynnol gan baragraff 13(2).

**Tirlunio**

**28.** Rhaid cynnal a chadw a rheoli'r tirlunio presennol sydd wedi ei wella yn unol â pharagraff 14(1) a'r tirlunio newydd a ddarperir yn unol â pharagraff 15 yn unol â'r cynllun cynnal a chadw tirlunio, am oes unrhyw ddefnydd o'r datblygiad a ganiateir gan erthygl 3(1)(a)(i), er mwyn sicrhau ei iechyd parhaus.